Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

## COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET

**Penderfyniad a wnaed gan:**

Aelod Arweiniol dros Dai a Chymunedau

**Dyddiad y penderfyniad:**

27 Medi 2023

**Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:**

27 September 2023

**Penderfyniad:**

YMESTYN CONTRACT ADFERIAD LAKE AVENUE- WEDI'I ARIANNU DRWY GRANT CYMORTH TAI

Cymeradwyo ymestyn prosiect tai â chymorth Adferiad Lake Avenue a ariennir gan y Grant Cymorth Tai

**Bwriad y penderfyniad:**

Cymeradwyaeth i ymestyn prosiect Adferiad Lake Avenue ymhellach er mwyn i ni ystyried cyfleoedd ailfodelu gwasanaethau iechyd meddwl a ariennir gan y Grant Cymorth Tai. Mae hyn yn golygu edrych ar yr opsiwn o uno nifer o gontractau iechyd meddwl mewn i un, er mwyn cynnig gwasanaeth mwy hyblyg sy'n cael ei arwain gan anghenion.

**Rhesymau dros wneud y penderfyniad:**

Oherwydd newid mewn tirwedd rydym yn cymryd y cyfle i adolygu hyn, a'r contractau iechyd meddwl eraill yn holistig i wella siwrnai'r dinesydd yn unol â'n Gweledigaeth Strategol ac Ailgartrefu Cyflym.

**Cysylltiadau a ddatganwyd:**

Dim cysylltiad i'w ddatgan.

**Ymgynghoriad:**

Gwnaed y cais i ymestyn y contract hwn gan y Pennaeth Gwasanaeth a'r Rheolwr Gwasanaeth. Fe wnaed y penderfyniad ar ôl cyfarfod tîm mewnol pan gynhaliwyd adolygiad o swyddi, cyfrifoldebau a darpariaeth bresennol. Daethpwyd i'r casgliad y bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i adnabod unrhyw fylchau mewn darpariaeth ac edrych ar ailfodelu'r 5 prosiect iechyd meddwl grant cymorth tai er mwyn sicrhau gwasanaeth mwy hygyrch a syml.

**Yr awdurdod i ddirprwyo'r penderfyniad i'r Aelod Cabinet:**

Gweler y Cynllun Dirprwyo.